**Kirsty Williams AS/MS**
**Y Gweinidog Addysg**
**Minister for Education**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-05-1055
Ein cyf/Our ref KW/06017/20

Janet Finch-Saunders AS
Cadeirydd, y Pwyllgor
Deisebau

27 Hydref 2020

Annwyl Janet,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 19 Hydref ynghylch Deiseb P-05-1055 - Canslo arholiadau TGAU a Safon Uwch yr ydych wedi'i derbyn.

Rwy'n cydnabod bod yr amharu parhaus a achoswyd gan COVID-19, yn enwedig y cyfyngiadau cenedlaethol a lleol a hunanynysu yn dilyn achosion positif mewn ysgolion a cholegau, yn cynyddu'r pryder ynghylch y trefniadau ar gyfer arholiadau'r haf. Yng ngoleuni hyn, rwyf wedi gofyn i Gymwysterau Cymru roi cyngor pellach i mi ar yr opsiynau sydd ar gael, gan ganolbwyntio'n glir ar gydraddoldeb a'r gallu i gyflawni unrhyw ddull gweithredu. Rwyf wedi gofyn am y cyngor hwn cyn diwedd mis Hydref er mwyn imi allu ei ystyried ochr yn ochr â chanfyddiadau interim yr adolygiad annibynnol sydd i'w gyhoeddi ddiwedd y mis hwn.

Fel y gwyddoch, mae'r adolygiad annibynnol, a gaiff ei gadeirio gan Louise Casella, yn ystyried y materion allweddol a ddeilliodd o'r trefniadau a roddwyd ar waith ar gyfer arholiadau'r haf hwn, a'r heriau o brofiad 2020, er mwyn darparu argymhellion ar gyfer dulliau o ymdrin â chymwysterau yn 2021.

Er fy mod wedi ymrwymo'n wreiddiol i gyhoeddi'r dull a fyddai'n cael ei ddefnyddio ar gyfer cymwysterau yn 2021, yn dilyn y cyhoeddiad am y cyfnod atal byr rwyf wedi penderfynu gohirio'r cyhoeddiad hwn tan 10 Tachwedd pan fydd dysgwyr yn ôl yn yr ysgol a'r coleg ac yn gallu cael cymorth gan eu hathrawon.

Mae'r gwaith hwn yn ychwanegol at yr addasiadau sydd eisoes wedi'u gwneud gan CBAC i gymryd i ystyriaeth yr amharu ar addysgu a dysgu, sydd i'w cael ar wefan CBAC. Roedd athrawon o bob rhan o Gymru yn rhan o'r gwaith o ddatblygu'r addasiadau hyn. Fe'u gwnaed er mwyn rhoi hyblygrwydd i ysgolion flaenoriaethu dysgu yn y cyfnod anodd hwn gan sicrhau ar yr un pryd ein bod yn cynnal dilysrwydd y cymwysterau i'n holl ddysgwyr.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN
Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru
Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales


Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Fy mhrif flaenoriaeth i ddysgwyr mewn carfannau arholiadau yw sicrhau bod ganddynt yr wybodaeth, y sgiliau a'r hyder i symud ymlaen i addysg bellach neu addysg uwch neu i gyflogaeth. Er mwyn cefnogi dysgwyr ymhellach, mae Llywodraeth Cymru yn buddsoddi £50 miliwn mewn pecyn cymorth sy’n cynnwys y rhaglen Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau, ac yn buddsoddi yn y cynllun adolygu Safon Uwch. Golyga hyn y bydd rhaglen cymorth mentora ac adolygu newydd ar gael i bob dysgwr ym Mlynyddoedd 10, 11 a 12, a 13 mewn ysgolion a cholegau. Ochr yn ochr â hyn, byddwn yn darparu £1.2 miliwn arall i gefnogi'r gwaith o ddatblygu adnoddau adolygu newydd o ansawdd uchel ar gyfer myfyrwyr TGAU.

Ochr yn ochr â'r gwaith i ystyried y dull gorau o ymdrin â chymwysterau yn 2021, ac o ystyried yr amharu parhaus, mae'r mesurau hyn yn darparu pecyn eang o gymorth i alluogi dysgwyr mewn blynyddoedd arholiad i ddatblygu'r wybodaeth a'r profiad sydd eu hangen arnynt i symud ymlaen yn hyderus i’w camau nesaf.

Yn gywir



**Kirsty Williams AS/MS**
Y Gweinidog Addysg
Minister for Education